DATHLU

60

MLWYDDIANT YR AIL RYFEL BYD

Brwydr Kohima,
Gogledd Ddwyrain India
4 Ebrill – 22 Mehefin 1944



'Y trobwynt yn y rhyfel gyda Siapan'

Kohima

KOHIMA, PRIFDDINAS NAGALAND YNG NGOGLEDD DDWYRAIN INDIA

FFEITHIAU ALLWEDDOL

Mae Kohima:

- 5000 troedfedd uwchlaw lefel y môr
- 40 milltir o Dimapur
- 80 milltir o Imphal

Rhagair gan yr

Is-ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a'r Gweinidog dros Gyn-filwyr, Ivor Caplin AS

'Nid oes dyfodol i genedl sy'n anghofio ei gorffennol.' Ni allai dim fod yn fwy addas i ddisgrifio pwrpas y gyfres hon o lyfrynnau na'r geiriau hyn gan Winston Churchill. Hwn yw'r llyfryn cyntaf yn y gyfres. Fel Gweinidog dros Gyn-filwyr credaf y dylem barhau i gofio dewrder ein Lluoedd Arfog yn ystod yr Ail Ryfel Byd; heb eu hymdrechion a'u haberth, byddai ein bywydau heddiw yn wahanol iawn. Bydd y llyfrynnau hyn yn coffáu amrywiol frwydrau'r Ail Ryfel Byd, a'u nod yw hysbysu cenedlaethau'r dyfodol am aberth y rhai a fu'n brwydro, yn ogystal â chofio a choffáu y rhai a frwydrodd ac a fu farw. Bydd yr ysbrydoliaeth fydd yn deillio o'u hanesion yn amhrisiadwy i'w dyfodol. Yr wyf am helpu pobl ifanc heddiw i fod yn ymwybodol o aberth y cyn-filwyr, a phwysigrwydd eu cyfraniadau i'n diogelwch a'n ffordd o fyw heddiw.

Y nod yw cysylltu pob llyfryn â digwyddiad coffaol penodol. Ym mis Ebrill 2004, bydd cyn-filwyr Kohima, ynghyd â pherthnasau'r milwyr a fu farw yno, yn teithio i Ogledd India gyda Remembrance Travel ar bererindod o'r rhanbarth am gyfnod o bythefnos. Gobeithiaf y bydd y gyfres hon yn berthnasol i bethau y tu hwnt i'r digwyddiadau hyn, yn ogystal â bod yn gyfrwng i goffáu'r 60 mlwyddiant.

Bu'n anodd iawn dewis ymgyrchoedd penodol ar gyfer y llyfrynnau hyn, ac ar gyfer y llyfryn cyntaf hwn dewiswyd Kohima i gynrychioli'r rhyfel yn Burma. Nid bwriad hyn yw bychanu pwysigrwydd y brwydrau eraill a ymladdwyd ar faes y gad yno. Mae'n deyrnged i bawb a wasanaethodd yno, a gobeithiaf y bydd y gyfres yn dychwelyd i'r maes y gad hwn gyda chyhoeddiad ar y Bedwaredd Fyddin ar Ddeg a rhyddhau Burma.

Mae'n anodd i ni ddeall erchyllterau'r brwydrau hyn. Mewn neges i'w chyhoeddi 'i bob rheng ar heol Manipur', ysgrifennodd Iarll Mountbatten yn dilyn brwydr Kohima mai 'dim ond y rhai sydd wedi gweld natur erchyll y wlad o dan yr amodau hyn fydd yn gallu gwerthfawrogi eich buddugoliaethau'. Mae hyn yn crynhoi un o wirioneddau mawr brwydr Kohima, ac yn pwysleisio maint y fuddugoliaeth y talwyd pris mawr amdani gan fyddin gyfun Prydain ac India, sef 2il Adran Prydain, 161fed Brigâd India (a oedd yn cynnwys 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint), a 33ain Brigâd India. Er na sylweddolwyd ei phwysigrwydd yn llawn ar y pryd, roedd Kohima yn drobwynt y rhyfel yn erbyn Siapan. Bydd y llyfryn hwn, gobeithio, yn cyfrannu at ein helpu i ddeall, ac i gofio, y rhai a ataliodd y Siapaneaid rhag ymosod ar Ogledd India.



Cefndir Brwydr Kohima

Rhwng Ebrill a Mehefin 1944, roedd Kohima, tref ar fryn yng Ngogledd-Ddwyrain India (Assam), sydd 5000 troedfedd uwchlaw lefel y môr yng nghanol Bryniau Naga, yn lleoliad un o frwydrau mwyaf chwerw'r Ail Ryfel Byd. Yn ystod y 18 mis, bu Pedwaredd Fyddin ar Ddeg Prydain ac India, o dan arweiniad y Cadfridog William Slim, yn sefydlu canolfannau logistaidd yn Dimapur ac Imphal ar gyfer ymosodiad ar Burma. Cafodd Pymthegfed Byddin Siapan, o dan arweiniad yr Is-gadfridog Renya Mutagachi, orchymyn ar ddechrau 1944 i atal paratoadau Prydain yn Assam. Roedd y brwydro yn Kohima ac o'i hamgylch yn ystod gwanwyn 1944 yn rhan o ymgyrch Siapaneaidd fwy, a adwaenwyd fel 'U-Go', lle y ceisiodd tair adran Siapaneaidd, y 15fed, y 31ain a'r 33ain, ddinistrio byddinoedd Prydain/India yn Imphal, Bryniau Naga a Kohima. Fodd bynnag, nid oedd y Siapaneaid yn ymwybodol bod milwyr Prydain ac India yn Assam yn 1944, yn wahanol i'w rhagflaenwyr yn 1942, wedi eu hyfforddi'n briodol ar gyfer y brwydrau arfaethedig.

Roedd Kohima yn orsaf bwysig ar fryn ar yr unig ffordd a oedd yn arwain o brif ganolfan cyflenwadau Prydain/India yn Dimapur i Imphal. Roedd bron 40 milltir o Dimapur, ac 80 milltir o Imphal. Cynllun y Siapaneaid oedd i'r 31ain Adran rannu'n dair colofn a fyddai'n torri'r ffordd rhwng Kohima ac Imphal gan amgylchynu'r pentref o dri chyfeiriad gwahanol. Dechreuodd ymgyrch 'U-Go' Siapan yng nghanol mis Mawrth 1944; erbyn yr 22ain roedd rhannau o IV Corfflu Prydain (Adrannau 17eg, 20fed a 23ain India) yn Imphal ac o'i hamgylch, yn brwydro yn erbyn y milwyr Siapaneaidd cyntaf.

Roedd y Cadfridog Slim yn ymwybodol bod ymgyrch mawr ar droed gan y Siapaneaid. Gyda'r rhan fwyaf o IV Corfflu Prydain yn Imphal a chan fod y ffordd rhwng Imphal a Kohima wedi ei rhwystro, gwyddai y byddai angen atgyfnerthu nifer y milwyr yn Kohima. Ni sylweddolodd gwasanaeth cudd-ymchwil Byddin Prydain y bygythiad i Kohima ar y cychwyn. Tybiwyd na fyddai mwy nag ambell fataliwn yn gallu teithio dros y gefnen uchel rhwng Afon Chindwin a Kohima. Cyn bo hir, fodd bynnag, cadarnhaodd adroddiadau fod adran Siapaneaidd gyfan yn symud tuag at Kohima.

Ganol mis Mawrth, yr unig filwyr yn ardal Kohima oedd ambell uned o Reifflwyr Assam, Catrawd 1af Assam, a milwyr Llinell Gyfathrebu. Gorfodwyd Catrawd 1af Assam, a orsafwyd i'r dwyrain o Kohima, i dynnu'n ôl cyn ymosodiad y Siapaneaid ar ôl brwydro chwyrn. Gan gydnabod y sefyllfa, cymerodd Slim gamau i hedfan 5ed (ac yn ddiweddarach, 7fed) Adran India i atgyfnerthu'r lluoedd yn Imphal a Kohima. Yr oedd y ddwy uned hon newydd gwblhau ymgyrch amddiffyn a gwrth-ymosodiad rhagorol yn rhanbarth Arakan yn Burma, yn erbyn Ymgyrch 'Ha-Go' y Siapaneaid. Gweithredodd Slim y XXXIII Corfflu hefyd ; clustnodwyd 2il Adran Prydain, 268fed Brigâd India a 23ain Brigâd y Troedfilwyr (Chindits) i ryddhau'r garsiwn yn Kohima ac agor y ffordd i Imphal.

Maes y gad Kohima yn dangos Jail Hill a Chefnen DIS

Cafodd 161ain Brigâd India, o 5ed Adran India a oedd yn filwyr profiadol iawn ac wedi eu hyfforddi'n dda, eu hedfan i ardal Dimapur ddiwedd Mawrth. Symudodd y frigâd i lawr y ffordd tuag at Kohima ac erbyn dechrau Ebrill roedd yn creu safleoedd amddiffynnol o amgylch y pentref. Roedd problemau sylweddol o ran amddiffyn yr ardal; roedd y nodwedd allweddol, Garrison Hill, ac esgair goediog hir ar gefnen uchel i'r gorllewin o'r pentref, yn lleoliad yr ymladd mwyaf ffyrnig o bosibl yn ystod holl ymgyrch Burma. Yn sgil yr ardal fach hon o dir a ddarparwyd gan y gefnen hon a'r ardal o'i hamgylch, dim on un bataliwn yr oedd modd ei defnyddio, sef 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint. Lleolwyd gweddill 161fed Brigâd India – Catrawd 1/1af Punjab, 4/7fed Catrawd Rajput a gynnau mawr y frigâd – ddwy filltir i'r gorllewin o Kohima, yn Jotsoma. Yn ystod y frwydr, anfonwyd unedau o Jotsoma i atgyfnerthu ardaloedd a gwmpaswyd gan 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint.

Llwyddodd amddiffynwyr ardal Kohima, 161fed Brigâd India, Reifflwyr Assam a Chatrawd 1af Assam, i atal ymosodiad y Siapaneaid yn y rhanbarth a'u gorfodi i frwydr athreuliol. Roedd y frwydr yn cynnwys ymladd ffyrnig un-i-un, yn arbennig yng ngardd byngalo'r Dirprwy Gomisiynydd (cynrychiolydd Llywodraeth India, Gwasanaeth Sifil India) ac o amgylch y cwrt tennis. Nid oedd modd i'r amddiffynwyr gysylltu â Dimapur, ac roedd yn rhaid iddynt ddibynnu ar ailgyflenwadau dyddiol gan awyrennau. Er gwaethaf y rhwystrau hyn, llwyddasant i wrthsefyll gwarchae o 13 diwrnod a brwydro ffyrnig heb encilio.

Gellir rhannu brwydr Kohima yn ddau gam: y gwarchae, a barhaodd am 13 diwrnod; a chlirio 31ain Adran Siapan o'r ardal, wedi'i ddilyn gan y gwaith o agor y ffordd rhwng Kohima ac Imphal, o ganol Ebrill tan 22 Mehefin. Digwyddodd yr ail gam hwn dros gyfnod o ddau fis ac anafwyd rhagor o filwyr ar y ddwy ochr.

Yn y pen draw, bu'r frwydr hon yn drobwynt yn Ymgyrch Burma. Fe'i disgrifiwyd gan Iarll Mountbatten fel a ganlyn: 'un o'r brwydrau mwyaf mewn hanes fwy na thebyg... yw Brwydr Burma...arwriaeth foel heb ei ail...Thermopylae Prydain/India'.

Cefnen Kohima a'r Ardaloedd a Amddiffynwyd



Y Gwarchae

Erbyn 5 Ebrill, roedd 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint a gweddill y 161fed Brigâd yn eu priod safleoedd yn Kohima ac o'i hamgylch. Gosodwyd 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint a'r milwyr ychwanegol o Reifflwyr Assam a Chatrawd Assam mewn cyfres o ffosydd ar hyd Cefnen Kohima. Roedd cefnen Kohima yn cynnwys nodweddion fel Garrison Hill, Jail Hill, Field Supply Depot (FSD) Hill a Detail Issue (DIS) Hill; denfyddiwyd yr ardaloedd hyn, ynghyd â Byngalo'r Dirprwy Gomisiynydd (DC), fel y prif amddiffynfeydd.

Dechreuodd 31ain Adran Siapan, a oedd wedi lleoli mwy na 12,000 o ddynion yn rhanbarth Kohima, eu hymosodiad ar noson 5/6 Ebrill. Gan gydnabod ei bod gryn dipyn yn llai o ran niferoedd a'r angen i gwtogi ei hamddiffynfeydd, enciliodd 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint o'r safleoedd mwy ynysig ar y gefnen yn dilyn yr ymosodiad mawr cyntaf. Roedd y Siapaneaid wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran eu cyrch ar y gefnen ac yn paratoi eu hamddiffynfeydd eu hunain. Erbyn 7 Ebrill, cyrhaeddodd milwyr ychwanegol y Rajputiaid o Jotsoma, gan roi hwb i'r morâl.

Lansiodd y Siapaneaid gyfres o ymosodiadau ar ranbarth gogledd-ddwyreiniol yr amddiffynfeydd ar 8 Ebrill, ac erbyn y 9fed roedd y Prydeinwyr a'r Indiaid yno wedi eu gorfodi i encilio i'r cwrt tennis. Bryd hynny y bu i'r Siapaneaid atal y llwybrau rhwng Jotsoma a Kohima a'r ffordd rhwng Jotsoma a Dimapur. Gorfododd y Siapaneaid y garsiwn yn Kohima i encilio ymhellach i'w rhengoedd ar 10 ac 11 Ebrill gydag ymosodiadau ar DIS ac FSD.

Ar 13 Ebrill, defnyddiodd y Siapaneaid eu mantais yn erbyn safle Prydain ac India ar y gefnen. Dioddefodd y milwyr a oedd yn amddiffyn ger byngalo'r DC a'r cwrt tennis ymosodiadau cynyddol drwm gan y gynnau mawr a morter, a bu'n rhaid iddynt wrthsefyll ymosodiadau cyson gan droedfilwyr. Bu peth o'r ymladd caletaf, agosaf a mwyaf gwaedlyd yn yr ardal hon, gyda llawfomiau yn cael eu taflu ar draws y cwrt tennis oddi agos. Mae Dyddiadur Rhyfel 4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint gyferbyn yn disgrifio'r olygfa.

Yn y pen draw gwrthsafwyd yr ymosodiadau gyda chymorth ergydion hynod gywir gan y Magnelwyr Brenhinol yng nghefnen Jotsoma. Nodwyd y ffaith hon gan gadlywyddion Siapan, a bu iddynt droi llawer o'u sylw tuag at safleoedd y 161ain Brigâd yn Jotsoma. Llwyddodd milwyr Prydain ac India i wrthsefyll yr ymosodiadau hyn.

Roedd 14 Ebrill yn drobwynt yn y gwarchae. Er i'r Siapaneaid barhau i fomio a thanio tuag at garsiynau Kohima a Jotsoma, ni wnaethant drefnu ymosodiadau gan droedfilwyr. Llwyddodd 2il Adran Prydain, a oedd newydd deithio 1500

Gweddillion byngalo'r Dirprwy Gomisiynydd a'r cwrt tennis



13/14 Ebrill
KOHIMA

Bu brwydro ffyrnig ar noson 13/14 Ebrill hefyd. Yn yr FSD gorfodwyd y Rajputiaid o'u ffosydd gan drawiadau uniongyrchol gan y gynnau 75mm gyferbyn, a bu'n rhaid i A Coy yn KUKI anfon un platŵn ymlaen i achub y safleoedd blaen...Ymosododd y Siapaneaid yn gyflym ac yn ffyrnig ar B Coy o fyngalo'r DC, a llwyddo i gyrraedd sied ar fryncyn bach ond pwysig pan fethodd Bren. Adferodd cadlywydd y platŵn, Is-gapten King, y sefyllfa drwy eu gyrru allan gyda llawfomiau, ond nid cyn i daniwr y Bren godi rhaw a cheisio taro ei ymosodwyr gyda hi.

14 Ebrill
KOHIMA

Yn gynnar yn y bore bu ymosodiad arall ar B Coy wedi'i ategu gan lawfomiau tanio, ond fe'i gwrthsafwyd a lladdwyd sawl un o'r gelyn. Gollwng cyflenwadau dŵr o'r awyr yn llwyddiannus iawn. Parhaodd y gelyn i danio bomiau morter drwy gydol y dydd, am yn ail â bomiau mwg a thybiwyd bod hyn yn golygu bod ei stoc o arfau yn prinhau. Yr oedd y dybiaeth hon yn gywir.

Dyfyniad o Ddyddiadur Rhyfel 4 Bataliwn Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint 13–14 Ebrill 1944

o filltiroedd dros y tir ac mewn awyrennau, a'r 161fed Brigâd i chwalu'r rhwystr a osodwyd gan y Siapaneaid ar y ffordd rhwng Dimapur a Kohima. Clywodd y garsiwn yn Kohima am hyn ar y 15fed a rhoddodd hwb sylweddol i'w morâl. Roedd y ffaith bod terfyn i'r gwarchae yn anochel ac yn prysur gyrraedd wedi codi eu hysbryd.

Gan wybod bod milwyr ychwanegol ar eu ffordd, yn eu hanobaith, trefnodd y Siapaneaid ymosodiad angheuol terfynol yn erbyn y safleoedd FSD ar noson 16/17 Ebrill. Ymosododd y ddwy ochr ar y safleoedd fwy nag unwaith, ond fe'u trechwyd gan eu gwrthwynebwyr. Yn sgîl y brwydro ffyrnig a nifer y milwyr a anafwyd, bu'n rhaid i filwyr Prydain ac India encilio o FSD i safleoedd Garrison Hill. Roedd hyn yn golygu bod yr amddiffynwyr wedi'u hamgylchynu o'r de, y gogledd a'r dwyrain.

Gyda'r sefyllfa'n troi'n argyfwng, ar fore'r 18 Ebrill dechreuodd gynnau mawr Prydain danio o'r gorllewin yn erbyn safleoedd y Siapaneaid. Gwthiodd elfennau o 2il Adran Prydain, 161ain Brigâd a thanciau o'r XXXIII Corfflu i'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o Garrison Hill gan orfodi'r Siapaneaid i ildio eu safleoedd. Agorwyd y ffordd rhwng Dimapur a Kohima, a chodwyd y gwarchae.

Rhyddhau a Chlirio Kohima

Llwyddodd safle amddiffynnol 161fed Brigâd Troedfilwyr India yn Kohima ac o'i hamgylch i bylu ymosodiad y Siapaneaid yn y rhanbarth. Yn sgîl agor y ffordd rhwng Dimapur a Kohima, roedd yr 2il Adran a milwyr o'r XXXIII Corfflu yn gallu symud i'r ardal a chefnogi'r gwrthymosodiad a ddechreuodd ddechrau mis Mai.

Gorchwyl yr 2il Adran, 33ain a 161fed Brigâd India oedd clirio byddinoedd Siapan oedd wedi'u gorsafu o amgylch Kohima ac agor y ffordd i Imphal. Roedd yr Uwchfrigadydd John L Grover, Adran GOC 2, wedi dyfeisio strategaeth i ddinistrio safleoedd y Siapaneaid yn rhanbarth Kohima ac o'i amgylch drwy ei amgylchynu. Rhoddodd Grover orchymyn i 4edd Brigâd y Troedfilwyr ddinistrio'r Siapaneaid i'r de yng Nghefnen GPT ac yn rhanbarth Aradura. Roedd tir a hinsawdd y rhanbarth yn gwneud hyn yn dasg anodd, fel y disgrifiodd Is-gapten Horner, swyddog signalau 2il Gatrawd Frenhinol Norfolk, 4edd Brigâd y Troedfilwyr:

> Mae'n anodd deall yr effaith gorfforol ar rywun. Mae'r gwres, lleithder, uchder a goleddf bron pob troedfedd o'r tir yn gyfuniad sy'n ddigon i drechu'r cyfansoddiad cryfaf. Rydych yn ymladd am aer nad yw fel pa bai yno, rydych yn llusgo eich coesau i fyny nes i'r egni ynddynt leihau i egni coesau matsys, rydych yn sychu'r chwys o'ch llygaid... Felly rydych yn aros am ennyd, gan frawychu o gael eich pwnio gan y dyn y tu ôl i chi neu eich melltithio gan swyddog o'ch blaen.

Bwriadwyd i 5ed Brigâd y Troedfilwyr fynd tua'r gogledd-ddwyrain i glirio'r Siapaneaid o Bentref Naga. Gwaith gweddill brigâd yr 2il Adran, sef y 6ed, oedd clirio'r ganolfan, FSD Hill a Jail Hill. Cofnodwyd yr ymladd o fewn ardal y 6ed Brigâd gan yr Uwchgapten Boshel, a oedd yng ngofal Cwmni 'B', Catrawd Frenhinol 1af Berkshire, yn 6ed Brigâd y Troedfilwyr:

> I ddechrau, meddiannais ardal yn edrych dros y Cwrt Tennis... Oherwydd y dirwedd roedd yn amhosibl symud yn ystod y dydd oherwydd y saethwyr cudd Siapaneaidd. Roeddem yn Kohima am dair wythnos. Ymosodwyd arnom bob nos... Daethant fel tonnau, yr oedd fel saethu colomennod. Y rhan fwyaf o nosweithiau bu iddynt redeg dros ran o safle'r bataliwn, felly bu'n rhaid inni wrthymosod... Roedd dŵr yn brin ac wedi'i gyfyngu i un peint y dydd y pen. Felly roedd yn rhaid inni roi'r gorau i eillio. Cyflenwadau o'r awyr oedd yr allwedd, ond roedd y tir serth a'r cefnau cul yn golygu bod rhai o'r nwyddau yn syrthio i ddwylo'r Siapaneaid. Aeth dros 100 o'm cwmni i mewn i Kohima a dim ond tua 60 ohonynt a ddaeth allan.

Roedd 33ain a 161fed Brigâd India dan orchymyn yr 2il Adran i glirio'r Siapaneaid. Roedd y brwydro'n ffyrnig ac yn hynod anodd, gyda'r Siapaneaid yn amddiffyn yn gadarn ac yn gyson. Cofnododd Arthur Swinson, hanesydd nodedig Kohima y canlynol:

Mai 7fed a'r tri diwrnod a'i dilynodd oedd y cyfnod mwyaf chwerw yn ystod brwydr Kohima fwy na thebyg. Wedi tri deg a phedwar o ddiwrnodau o frwydro clos a gwaedlyd, ar ôl newyn, syched, anghysur, ar ôl anafiadau erchyll, yr oedd y gelyn yn parhau i ddal eu tir. Nid ymddengys y gallai unrhyw fom, pelen, morter, taflwyr fflamau neu lawfomiau eu symud...Roedd y Siapaneaid wedi colli miloedd ar filoedd o ddynion, ac roedd adroddiadau yn dweud yn barhaus eu bod yn wan ac yn dioddef o glefydau a bod eu harfau'n prinhau. Ond y cyfan yr oedd y Prydeinwyr, y Gurkhas a'r Indiaid yn ei wybod oedd bod y tanio mor ddidrugaredd ag erioed cyn gynted ag yr oeddent yn agosáu at fyncer.

Erbyn bore'r 13 Mai, roedd nifer o'r nodweddion yn rhanbarth Kohima wedi cael eu meddiannu gan fyddinoedd Prydain/India; roedd ambell un, byngalo'r DC yn eu plith, yn parhau i frwydro yn erbyn y Dorsets a'u tanciau ategol. Yn 1950 cyhoeddodd yr Uwchgapten Michael Lowry gofnod o'r ymosodiad gan ei Gwmni 'B' , Catrawd Frenhinol y Frenhines, ar Jail Hill ar 10 Mai.

Am 2200 awr cefais y gorchymyn i symud allan am 2215 awr... Roedd gweithio yn y nos, yn fy marn i, yn hynod anodd – anodd iawn dod o hyd i'r ffordd a phrofiad eithaf brawychus, rhywbeth na wnaf byth ei anghofio... Roedd yn rhaid i mi ddangos y ffordd i'r golofn – yn wir, roedd yn rhaid i mi ei harwain. Anodd iawn, dim llwybr pendant, llystyfiant trwchus, i lawr cannoedd o droedfeddi o amgylch esgeiriau ac i fyny cannoedd o droedfeddi ac ar draws cyfuchliniau adfewnol, gan dorri, gwthio, baglu a thrwy 'bashas' adfeiliedig ac ati...

Cyflenwadau yn cyrraedd troed FSD Hill

Ffurf yr ymosodiad lleol hwn ar y safle hwn oedd ymosod mewn llinell gan danio i'n hamddiffyn. Dechreuodd Pen a minnau drwy daflu rhai llawfomiau... Ond nid oedd y tir yn hawdd, gan fod nifer o dyllau pelenni, bonion coed ac ambell ffos i'w goresgyn. Wrth fynd i lawr y llethr cawsom ein taro gan ergydion tua thri gwn peiriant ysgafn a reifflau ac, wrth gwrs, llawfomiau wrth inni geisio goresgyn y rhwystrau. Yn anffodus, arweiniodd hyn at golli llawer mwy o ddynion...

Wedi hyn cafwyd brwydr cudd-saethu, ac yna digwyddodd pethau na welais erioed o'r blaen. Roedd y peth tebycaf at ornest peli eira y gallech ei ddychmygu. Daeth yr awyr yn drwch o lawfomiau, eu rhai hwy a'n rhai ni, ac roeddem oll yn rhedeg o gwmpas yn ceisio eu hosgoi wrth iddynt ffrwydro. Ymddengys fel pe bai'r frwydr hon yn parhau am hydoedd am gyfnod annyfaladwy...

Am weddill y dydd buom yn cloddio fel tyrchod – unrhyw beth y gallem ddod o hyd iddo, platiau, cwpanau, bidogau ac offer cloddio ffosydd – nid cloddio fel y gwneir fel arfer, ond drwy wneud twll a chloddio a thwnelu ein hunain o dan y ddaear. Erbyn min nos roeddem yn gyfan gwbl o dan y ddaear a chyswllt rhwng pob adran...

Dros amser, llwyddodd milwyr Prydain ac India i gael y llaw uchaf, gan orfodi 31ain Adran y Siapaneaid i ddechrau encilio erbyn canol Mai. Wrth i filwyr Siapan gael eu clirio o faes y gad, symudwyd unedau ychwanegol Prydain ac India o'r XXXIII Corfflu i atgyfnerthu a rhyddhau aelodau o'r 2il Adran a 33ain a 161fed Brigâd India.

Wedi ei chryfhau gan y milwyr ychwanegol, dechreuodd yr 2il Adran ac unedau eraill glirio'r Siapaneaid oddi ar y ffordd rhwng Kohima ac Imphal, gan baratoi ar gyfer codi gwarchae Imphal. Dilynodd rhagor o ymladd ffyrnig, ond yn y pen draw cliriwyd milwyr Siapan oddi ar y ffordd. Cyfarfu milwyr Prydain ac India o Kohima ac Imphal yn Milestone 110 ar 22 Mehefin, gan ddod â'r gwarchae ar Imphal a Kohima i ben yn swyddogol.

Collodd byddinoedd Prydain ac India tua 4000 o ddynion, yn sgil marwolaeth, anafiadau neu eu bod ar goll. Roedd y Siapaneaid wedi colli mwy na 7000 o ddynion yn yr ymladd yn ardal Kohima. Ar 31 Mai, rhoddodd y Cadfridog Sato, Cadlywydd 31ain Adran Siapan, orchymyn i'r unedau cyntaf encilio; ysgrifennodd am y penderfyniad hwn gan ddweud:

Bu i ni frwydro am ddau fis gyda'r dewrder mwyaf ac rydym wedi cyrraedd terfyn gwroldeb dynol... Gan wylo dagrau hallt gadawaf Kohima yn awr.

Rôl yr Awyrlu

Milwyr Prydain ac India gyda chyflenwadau ar faes awyr yn Burma

Yn Kohima ac Imphal, roedd y fyddin yn gwbl ddibynnol ar gyflenwadau gan yr Awyrlu Brenhinol hyd nes i'r ffordd o Dimapur gael ei chlirio. Yn Kohima y brif broblem oedd gollwng cyflenwadau o'r awyr a sicrhau eu bod yn glanio'n gywir ar y gefnen gul, ond yn Imphal roedd ambell lanfa. Roedd y cyflenwadau cyntaf i gael eu gollwng yn Kohima, ar 13 Ebrill, yn siom fawr; camgymerodd yr awyrennau cyntaf y parth gollwng cyflenwadau, gan ollwng eu llwythi y tu allan i'r ffiniau. Wedi i'r parth gael ei nodi'n gywir, fodd bynnag, daeth y cyflenwadau o'r awyr yn fwy rheolaidd a manwl gywir, gan ddiwallu anghenion dyddiol o ran bwyd, dŵr ac arfau. Erbyn canol mis Ebrill, bron bob dydd, fel yr ysgrifennodd Arthur Swinson:

> Ar ddiwedd y prynhawn byddai ryw hanner dwsin o Dakotas, yn hedfan mewn llinell uwchben, yn dod i fyny'r cwm, yn hedfan yn isel mewn cylch o amgylch Garrison Hill, ac yn rhyddhau eu parasiwtiau lliwgar. Glaniodd eithaf tipyn o'r parasiwtiau gwerthfawr hyn yn rhengoedd y gelyn... Glaniodd rhai mewn coed, a llwyddwyd i gael gafael ar y rhain drwy saethu at y llinynnau tan iddynt ddisgyn.

Erbyn mis Mai, nid oedd y milwyr byth yn brin o fwyd nac arfau, a defnyddiwyd y parasiwtiau sidan eu hunain i gadw'n gynnes ac fel addurniadau. Cynyddodd y dŵr yn raddol, y cyfyngwyd arno i beint y dydd yn ystod y rhan fwyaf o fis Ebrill, i dri pheint, diolch i'r Awyrlu. Serch hynny, roedd y criwiau yn yr awyr ac ar y ddaear wedi ymlâdd pan ryddhawyd y garsiynau oedd dan warchae; roedd yr Awyrlu wedi hedfan bron 19,000 o dunelli o gyflenwadau a mwy na 12,000 o ddynion, ac wedi symud 13,000 o filwyr wedi eu hanafu a 43,000 o bobl nad oeddent yn rhan o'r brwydro.

FFEITHIAU ALLWEDDOL

Yn Kohima roedd yr Awyrlu Brenhinol wedi hedfan:

- 19,000 tunnell o gyflenwadau
- 12,000 o ddynion
- 13,000 o filwyr wedi eu hanafu
- 43,000 o bobl nad oeddent yn rhan o'r brwydro

Croesau Fictoria

Croes Fictoria yw gwobr uchaf teyrnas Prydain am wroldeb yn wyneb y gelyn. Caiff flaenoriaeth dros unrhyw un o'n gwobrau Sofran eraill neu fedalau'r Gymanwlad.

Sefydlwyd Croes Fictoria drwy Warant Frenhinol ar 29 Ionawr 1856. Mae'r Groes ei hun wedi ei gwneud o'r canonau efydd a feddiannwyd yn Sevastopol yn ystod Rhyfel y Crimea. Mae'r cynllun, a ddewiswyd gan y Frenhines Fictoria, yn cynnwys croes gyda'r Arfbais Frenhinol yn gorwedd ar sgrôl fechan sy'n dwyn y geiriau 'For Valour'.

Ers ei chyflwyno dyfarnwyd Croes Fictoria i 1,354 o bobl. Roedd yr ieuengaf yn 15 oed a'r hynaf yn 69 oed. Mae tri achos lle mae tad a mab wedi ennill Croes Fictoria; mae pedwar pâr o frodyr hefyd wedi ei derbyn.

Dyfarnwyd dwy Groes Fictoria yn dilyn y frwydr yn Kohima.

FFEITHIAU ALLWEDDOL

Ynglŷn â Chroes Fictoria:

- Fe'i sefydlwyd drwy Warant Frenhinol ar 29 Ionawr 1856.
- Fe'i dyfarnwyd i 1,354 o bobl.
- Roedd yr ieuengaf i'w derbyn yn 15 oed a'r hynaf yn 69 oed.
- Dyfarnwyd dwy Groes Fictoria yn dilyn y frwydr yn Kohima.

IS-GORPRAL JOHN HARMAN

4ydd Bataliwn
Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint y Frenhines
161ain Brigâd y Troedfilwyr India
5ed Adran India

Roedd yr Is-gorpral John Harman yn saethwr cudd yng Nghwmni 'D', yn amddiffyn DIS Hill o 6 Ebrill pan ddechreuodd y gwarchae. Ar y 7fed, dechreuodd Harman gropian o'i ffos gul, tuag at dîm gynnau peiriant ysgafn o Siapaneaid, a oedd wedi cuddio mewn ffos a feddiannwyd. Cyn i'r Siapaneaid allu ymateb, rhedodd y 35 llath i daflu ei hun islaw lefel ffos gul lle yr oedd y gelyn yn tanio. Gafaelodd mewn llawfom gyda ffiws pedair eiliad, cyfrif i dri a thaflu'r llawfom i rengoedd y Siapaneaid. Wedi iddo sicrhau bod ei ddau wrthwynebwr yn gelain, dychwelodd Harman i'w adran gyda'u harfau.

Y diwrnod canlynol, ailgychwynnodd y Siapaneaid eu hymosodiadau ar DIS Hill. Unwaith eto, gyda'i fidog wedi'i osod, aeth Harman ati i ymosod ar ffos Siapaneaidd yn cynnwys pum dyn gydag arfau awtomatig. Saethodd Harman ei ffordd i'r ffos, lladdodd yr holl filwyr ynddi, ac yna dechreuodd gerdded yn ôl, gan anwybyddu ei gyd-filwyr oedd yn gweiddi arno i redeg. Fe'i trawyd gan lu o fwledi, a bu farw gan ddweud: 'Mae'n rhaid i mi fynd. Roedd yn werth yr ymdrech – lleddais bob un.'

Yn sgîl y camau hyn, a rwystrodd y bryn rhag syrthio i ddwylo'r gelyn, rhoddwyd Croes Fictoria i Is-gorpral John Harman. Yn y *London Gazzette* ar 22 Mehefin 1944 argraffwyd y geiriau hyn:

> Roedd camau arwrol ac ymroddiad enfawr Is-gorpral Harman i'w ddyletswydd yn ysbrydoliaeth wych i bawb ac yn bennaf gyfrifol am y ffordd benderfynol y gwrthsafwyd pob ymosodiad gan ei gwmni.

CAPTEN DROS DRO JOHN NEIL RANDLE

2il Fataliwn
Catrawd Frenhinol Norfolk
2il Adran

Roedd Capten Randle yn gadlywydd Cwmni 'B' Catrawd Norfolk. Fe'i gorchmynnwyd i ymosod ar ystlys y Siapaneaid ar Gefnen GPT. Ysgrifennwyd y canlynol yn y *London Gazzette* ar 12 Rhagfyr 1944:

Ar 4ydd o Fai, 1944, yn Kohima yn Assam, ymosododd Bataliwn o Gatrawd Norfolk ar safleoedd y Siapaneaid ar gefnen gyfagos. Cymerodd Capten Randle yr awenau o ran rheoli'r Cwmni a oedd yn arwain yr ymosodiad pan gafodd Cadlywydd y Cwmni ei anafu'n ddifrifol. Llwyddodd i ymdrin â sefyllfa anodd yn feistrolgar yn wyneb saethu trwm ac er iddo gael ei anafu ei hun ar ei ben-glin gan deilchion llawfom parhaodd i ysbrydoli ei ddynion drwy ei arloesedd, dewrder ac arweinyddiaeth aruthrol hyd nes i'r Cwmni gyflawni ei amcan a chryfhau ei safle. Yna aeth ymlaen i symud yr holl ddynion a anafwyd a oedd yn gorwedd y tu allan i'r rhengoedd. Er gwaethaf ei anaf poenus gwrthododd Capten Randle gael ei symud gan gynnal rhagchwiliad personol gyda gwroldeb mawr yng ngolau'r lleuad cyn ymosodiad arall gan ei Gwmni ar y safle yr oedd y gelyn wedi encilio iddo. Ar doriad gwawr ar 6ed Mai dechreuodd yr ymosodiad, o dan arweiniad Capten Randle, a llwyddodd un o'r platwnau i gyrraedd copa'r bryn a feddiannwyd gan y Siapaneaid. Fodd bynnag, rhedodd platŵn arall i ganol tanio ffyrnig gan ynnau peiriant o fyncer ar ochr arall y llethr.

Sylweddolodd Capten Randle ar unwaith bod y byncer penodol hwn yn cwmpasu cefn ei safle newydd a hefyd llinell gyfathrebu'r bataliwn ac felly roedd yn hanfodol dinistrio safle'r gelyn er mwyn i'r ymgyrch lwyddo. Gan anwybyddu'n llwyr y perygl amlwg iddo ef ei hun, ymosododd Capten Randle ar safle gynnau peiriant y Siapaneaid ar ei ben ei hun gyda reiffl a bidog. Er fod ei wyneb yn gwaedu a'i fod yn wedi cael anafiadau angheuol gan lifeiriant o fwledi gynnau peiriant, cyrhaeddodd y byncer a thewi'r gwn gyda llawfom a daflwyd drwy hollt y byncer. Yna taflodd ei gorff ar draws yr hollt fel bod yr agen wedi'i selio'n gyfan gwbl. Roedd dewrder y swyddog hwn heb ei ail a thrwy hunan-aberth achubodd fywydau llawer o'i ddynion a galluogodd i'r Bataliwn cyfan, yn ogystal â'i Gwmni ei hun, gyflawni ei nod ac ennill buddugoliaeth bendant dros y gelyn.

Atgofion am Kohima

DADORCHUDDIO COFEB Y FFIWSILWYR BRENHINOL CYMREIG 1944

Edrych yn ôl ar y Frwydr

Dychwelodd un cyn-filwr i faes y gad 10 mlynedd yn ddiweddarach a chofnodi ei deimladau.

Atgofion am Kohima

UWCHGAPTEN GORDON GRAHAM MC A BAR
o'r Cameron Highlanders a ddychwelodd i faes y gad yn 1954

Mae'r coed i gyd yn ifanc ar Garrison Hill, ac mae plant yn chwarae ym Mhentref Naga. Mae'r un arogl ffres y gwanwyn i'r pridd gwlyb a'r llwyni sy'n egino. Ac nid oes drewdod. Mae tyllau llwynogod wedi eu llenwi â glaswellt yn nodi olion angof ac mae rhai tuniau dogn rhydlyd a strapiau lledr wedi dianc, gan eu bod yn rhy ddiwerth i'w codi gan ddegawd o sborionwyr.

O dan y Bryn mae'r beddau. Mil tri chant wyth deg a saith ohonynt, mewn rhesi trefnus, amhersonol, diddiwedd. Yn y panorama geometrig hwn nid oes na galar, na cherydd nac edifeirwch. Mae'n arwydd o heddwch, yr heddwch duwiol sy'n dilyn rhyfel, yr heddwch ffiaidd sy'n dweud 'Byth Eto'. Mae'n ymdrech fud i fynegi'r hyn na ellir ei fynegi gan y rhai hynny sydd ar ôl, yn ddiymgeledd. Mae yr un mor annigonol â'r golofn 'Sylwadau' yn y Llyfr Ymwelwyr, lle mae embaras yn cydio yn yr ysgrifbin sydd wedi ysgrifennu'r enw a'r cyfeiriad yn ddidrafferth ac yna'n baglu i ysgrifennu sylw siomedig fel 'Gwych iawn' neu 'Gorffwysfa addas i arwyr'. Ond yr oedd un cyn-filwr wedi ysgrifennu gyda fflach o graffter 'Trueni nad yw fy enw i yma'.

Tref a Mynwent Kohima

‘Pan ewch adref, dywedwch wrthynt amdanom a dywedwch, bu i ni aberthu ein bywydau yn gyfnewid am eich dyfodol.’

Ond eto, mae’r ing yno. Ar y plat efydd hwn mae neges olaf y rhai a garodd. Mae rhai yn ysbrydoledig; mae rhai yn syml ac yn daer; mae rhai yn ofergoelus; mae rhai, fel y lleoedd gwag yn y Llyfr Ymwelwyr, yn llonydd dawel gan annirnadaeth anobeithiol. Ond, yn dawel neu’n llafar, mae pob un yn ymwneud â’r rhai sy’n siarad, ac rydym yn dal i geisio dyfalu beth fyddai ymateb y rhai tawedog. A ydynt yn gwybod gormod i gadw eu trysorau yn storfa adfeiliedig y cof? Neu a ydynt yn mynd yn ddianghofus, ond eto heb eu llesteirio gan hapusrwydd y gorffennol? Lladdwyd ar Faes y Gad. Ebrill 18 1944. 27 Oed. ‘Nos da, Dad.’ Lladdwyd ar Faes y Gad. Ebrill 21 1944. 29 Oed. ‘Marchog addfwyn perffaith’. Lladdwyd ar Faes y Gad. Mai 5 1944. 35 Oed. ‘Beatae memoriae quis nos separabit?’ Lladdwyd ar Faes y Gad. Mai 6 1944. 23 Oed. ‘Ein hunig annwyl fab, a fu farw dros ryddid.’

Gall ystadegau fod yn gysur. Hanner can mil o rwpïau; 200 o goed ifanc; 36 tunnell o sment; 1387 o feddau; a 10 mlynedd. Fel y cerrig milltir ingol, yr oedd y bws gwledig wedi gyrru heibio iddynt yn yr un faint o funudau ag y bu i’r milwyr symud mewn diwrnodau, mae’r ffigurau hyn yn mesur y meddyliwr, nid yr hyn a feddylir. I rai, dim ond cyfrifiad ydynt; i eraill maent yn atgof o olwg, arogl a chyffyrddiad maes y gad a aeth yn angof. Yn yr un modd, ar frig y groesfforddd lle y daw’r bws i stop, mae’r lle gwag uwchlaw i rai yn rhywbeth a arferai fod yn gwrt tennis ac sydd bellach yn fynwent ryfel; i eraill yr oedd yn fan tynged. Y tu ôl i ni mae’r ffordd serth arteithiol. O’n blaenau mae fforestydd a bryniau glas blêr Nagaland a Burma. Uwchlaw’r groesfforddd mae’r gofeb, ei neges heb ei darllen gan y rhai sy’n ei phasio, ond yn dal sylw’r rhai sy’n cyrraedd: ‘Pan ewch adref, dywedwch wrthynt amdanom a dywedwch, bu i ni aberthu ein bywydau yn gyfnewid am eich dyfodol.’

O amgylch y gofeb mae’r enwau. Brigadwyr a phreifatiaid; gyrwyr tanciau a chludwyr elorwelyau; signalwyr a reifflwyr; enwau o bob cwr o Gymru, Lloegr a’r Alban. Yn gyfnewid am ein dyfodol bu iddynt aberthu eu bywydau. Cefais fy nhywys tuag at y gofeb ar ucheldir Pentref Naga gan un o blant y dyfodol. Gan ymfalchïo yn ei wybodaeth esboniodd y llenni haearn rhychog yn llawn tyllau bwledi. Mae’r llwybr a adawyd gan y teirw dur wrth iddynt yrru i fyny ochr y bryn bellach yn ddeiliog; ac mae tai yn union debyg i’r rhai a chwalwyd yn y frwydr wedi cuddio patrwm y rhyfel fel na ellir ei olrhain.

Yn Nagas o dan gynfas goch, yn awr, fel o'r blaen, syllodd rebeliaid llon yn anghrediniol wrth i mi duchan wrth gerdded y tu ôl i'r crwtyn troednoeth heini i'r lle y dylem fod wedi ei adnabod yn well nag ef ac y gwyddwn amdano cyn iddo gael ei eni. Mae cofeb yr Highlanders mewn iard tŷ, sy'n ddryswch o ffensys, moch ac ieir. McCassey, Mackay, Mackinnon, Macmillar, MacNaught, yn nhrefn y wyddor ar gof a chadw mewn efydd. Yma lladdwyd 83 ac roedd 8 ar goll. O dan yr enwau mae teitl galarnad Cameron, 'Lochaber No More'.

Roedd cri'r fagbib o farics Reifflwyr Assam ar y gefnen islaw yn gefndir rhy amserol bron i synfyfyrdod. Felly hefyd ganiad y corn hela tra'n baglu drwy'r llwyni yn niwl gwawr wlyb. Edrychais am ysbrydion ond ni welais yr un. Ni yw'r ysbrydion a gaiff ein galw gan ein hatgofion ni ein hunain, gan briodoli ein hystyron personol ein hunain i bob modfedd o bridd amhersonol; mae'r ystyron hyn yn niwl a grëwyd gennym ni ein hunain gan ddychryn ein hunain fel drychiolaeth.

Ond wrth i'r niwloedd gael eu chwythu oddi ar yr uchelfannau gan wyntoedd cyflym monsŵn, yn y lle yr ydym yn syllu yn ddiddirnad ar yr alwad sydyn am weledigaeth – yn rhy gyflym ac yn rhy fyrhoedlog o hyd ond yn anhraethol o sicr – mae'r arwyddocâd mawr yr ydym yn chwilio amdano. Oherwydd mae'r coed i gyd yn ifanc ar Garrison Hill ac mae plant yn chwarae ym Mhentref Naga.



Mynwent Ryfel Kohima – Croes yr Aberth

Kohima heddiw

GOLYGFA O'R FYNWENT YN KOHIMA

Heddiw mae poblogaeth Kohima, prifddinas Nagaland, yn 40,000. Mae wedi'i lleoli tua 40 o filltiroedd mynyddig o ffin Burma, ac nid oes ganddi unrhyw gysylltiadau awyr na rheilffordd. Mae wedi'i lleoli rhwng Assam i'r gorllewin, Burma i'r dwyrain, Arunachal Pradesh i'r gogledd a Manipur i'r de. Ymhellach i'r gogledd mae Mynyddoedd Himalaia, a Bryniau Chin ymhellach i'r de. Mae'n anodd meddwl am le mwy diarffordd. Mae'r golygfeydd yn wych, drwy fynyddoedd uchel, fforestydd dwfn, pentrefi bach tyredog.

Yn Kohima mae toeon tun ar y tai, mae anifeiliaid anwes yn rhedeg yn wyllt, mae'r ffyrdd yn llychlyd ac nid ymddengys fel pe bai neb byth ar frys mawr. Gellir dod o hyd i olion y frwydr o hyd ar faes y gad, ynghyd â chofebau i Gatrawd Frenhinol yr Alban yn Esgair Aradura, Catrawd Frenhinol Norfolk ar Gefnen GPT, Troedfilwyr Ysgafn Dyrham yn Kuki Piquet a chofeb i Fataliwn 1af Catrawd Frenhinol y Frenhines ym Mynwent Ryfel Kohima.

Saif Mynwent Ryfel Kohima ar faes y gad yn Garrison Hill. Nid oes arlliw o fyngalo'r DC, a ddinistriwyd yn ystod y frwydr, ond mae llinellau concrit gwyn yn nodi ffiniau'r cwrt tennis hanesyddol ar gyfer yr oesoedd i ddod. Yn y fynwent, sydd â therasau o'i hamgylch, mae 1420 o feddau milwyr y Gymanwlad o'r Ail Ryfel Byd. Yn y man uchaf yn y fynwent saif cofeb Amlosgi Kohima sy'n coffáu 917 o filwyr Hindw a Sîc a fu'n ymladd ochr yn ochr â milwyr Prydain fel rhan o Fyddin Prydain ac India, y cafodd eu gweddillion eu hamlosgi, yn unol â'u ffydd. Ar ben isaf y fynwent, ger y fynedfa, ceir

Cofeb Ryfel yr 2il Adran

cofeb i'r 2il Adran – carreg enfawr a lusgwyd gan lwythddynion Naga i'w leoliad presennol.

Yn y fynwent hefyd ceir cofeb i'r 2il Fataliwn, Catrawd Swydd Dorset; a chodwyd nifer o gofebau catrodol eraill ar neu ger Garrison Hill.

FFEITHIAU ALLWEDDOL

Caiff Mynwent Ryfel Kohima ei chynnal a'i chadw gan Gomisiwn Beddrodau Rhyfel y Gymanwlad. Mae'r Comisiwn yn cynnal a chadw dros 1,179,000 o feddau rhyfel mewn 23,203 o safleoedd claddu mewn 148 o wledydd ledled y byd. Mae hefyd yn coffau 760,193 o filwyr y Gymanwlad a fu farw ar gofebau i filwyr coll.

Mae llywodraethau'r Gymanwlad yn rhannu'r gost o gynnal a chadw yn gymesur â nifer o feddau eu milwyr a fu farw yn y rhyfel: DU – 79%; Canada – 10%; Awstralia – 6%; Seland Newydd – 2%; De Affrica – 2%; India 1%.

Unedau Rhyfel Prydain ac India a gafodd Anrhydedd Brwydr Kohima

Y BEDWAREDD FYDDIN AR DDEG, XXXIII CORFFLU

2IL ADRAN PRYDAIN:
2il Gatrawd Manceinion (Bataliwn Gynnau Peiriant)

4edd Brigâd y Troedfilwyr:
Catrawd Frenhinol 1af yr Alban
1/8fed Ffiwsilwyr Swydd Gaerhirfryn
2il Gatrawd Frenhinol Norfolk
5ed Brigâd y Troedfilwyr:
7fed Catrawd Swydd Gaerwrangon
Cameron Highlanders 1af y Frenhines
2il Gatrawd Swydd Dorset
6ed Brigâd y Troedfilwyr:
Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig 1af
Catrawd Frenhinol 1af Berkshire
2il Gatrawd Troedfilwyr Ysgafn Dyrham

10fed Catrawd Maes, Magnelwyr Brenhinol

5ED ADRAN INDIA:
161fed Brigâd Troedfilwyr India
4edd Catrawd Frenhinol Gorllewin Caint
Catrawd Punjab 1/1af
4/7fed Catrawd Rajput

7FED ADRAN INDIA:
33ain Brigâd Troedfilwyr India:
Catrawd Frenhinol 1af y Frenhines
4/15fed Catrawd Punjab
Reifflwyr Gurkha 4/1af
114fed Brigâd Troedfilwyr India:
Catrawd Troedfilwyr Ysgafn 1af Gwlad yr Haf
4/14eg Catrawd Punjab
4/5ed Catrawd Frenhinol Reifflwyr Gurkha

UNEDAU ERAILL Y XXXIII CORFFLU

11eg Marchoglu
45ain Marchoglu
149fed R.A.C.

Catrawd 1af Burma
Catrawd 1af Chamar
Catrawd 1af Assam

Catrawd Shere (Nepal)
Catrawd Mahindra Dal (Nepal)

268FED BRIGÂD INDIA:
2/4ydd Grenadwyr Bombay
5/4ydd Grenadwyr Bombay
17/7fed Catrawd Rajput

3YDD ADRAN INDIA (CHINDITS):
23ain Brigâd y Troedfilwyr:
2il Gatrawd Dug Wellington
4edd Catrawd y Gororau
Catrawd 1af Essex

BRIGÂD LUSHAI
(O DAN ORCHYMYN UNIONGYRCHOL Y BEDWAREDD FYDDIN AR DDEG):
Catrawd 1af Bataliwn Frenhinol Jat
8/13eg Catrawd Reifflwyr Byddin y Gororau
7/14eg Catrawd Punjab
Catrawd 1af Bihar

Hanner can mlwyddiant brwydr Kohima

Geirfa

Nod y llyfryn hwn yw bod o ddiddordeb i bobl ifanc, yn ogystal â chyn-filwyr. Gan na fydd y bobl ifanc yn gyfarwydd â therminoleg filwrol sylfaenol o bosibl, cynhwysir geirfa syml o dermau Byddin Prydain yn 1944 sy'n ymwneud ag amrywiol reolaethau. Rhestrir y rheolaethau hyn gan ddechrau gyda'r mwyaf o ran maint a rhoddir rheng y comander mewn llythrennau italig.

TERM	DISGRIFIAD
Grŵp y Fyddin *Cadfridog neu Cadlywydd*	Y rheolaeth filwrol fwyaf a ddefnyddir gan Fyddin Prydain, sy'n cynnwys dwy fyddin neu fwy, a 400,000–600,000 o filwyr.
Y Fyddin *Is-gadfridog*	Rheolaeth filwrol sy'n rheoli sawl is-gorfflu, yn ogystal â byddinoedd ategol, sy'n cynnwys 100,000–200,000 o filwyr.
Corfflu *Is-gadfridog*	Rheolaeth filwrol yn cynnwys dwy adran neu fwy, yn ogystal â byddinoedd ategol eraill, sy'n cynnwys 50,000–100,000 o filwyr.
Adran *Uwchfrigadydd*	Trefniant safonol Byddin Prydain yn 1944. Roedd adran troedfilwyr neu adran arfog yn cynnwys 10,000–20,000 o bobl.
Brigâd *Brigadydd*	Trefniant sy'n cynnwys sawl bataliwn neu gatrawd sy'n cynnwys 3000–6000 o bobl, sy'n bodoli naill ai'n annibynnol neu'n ffurfio rhan o adran.
Catrawd *Is-gyrnol*	Uned sy'n cynnwys byddinoedd sydd wedi eu harfogi neu sydd â gynnau mawr fel arfer, yn cynnwys 500–900 o filwyr, sy'n gyfartal o ran statws a maint â bataliwn troedfilwyr.
Bataliwn *Is-gyrnol*	Uned sydd fel arfer yn cynnwys 500–900 o filwyr (fel bataliwn troedfilwyr, peirianwyr neu signalwyr).
Sgwadron *Uwchgapten*	Yn nodweddiadol, is-uned catrawd arfog neu ragchwilio sy'n gyfartal o ran statws a maint â chwmni troedfilwyr.
Cwmni *Uwchgapten*	Is-uned fechan i fataliwn. Gallai cwmni nodweddiadol o droedfilwyr gynnwys tua 150–180 o filwyr.
Magnelfa *Uwchgapten*	Is-uned fechan, o ynnau mawr fel arfer, sy'n ffurfio rhan o fataliwn.
Uned	Grŵp milwrol bach sy'n amrywio o ran maint o garfan (o 10 o filwyr) i fataliwn neu gatrawd (500–900 o bobl).
Trefniant	Grŵp milwrol mawr sy'n amrywio o ran maint o frigâd i grŵp y fyddin.
DC	Dirprwy Gomisiynydd
DIS	Storfa Cyflenwadau Dyddiol (Daily Issue Store)
FSD	Canolfan Cyflenwi Maes (Field Supply Depot)
GOC	Swyddog Rheoli Cyffredinol (General Officer Commanding)
GPT	Trafnidiaeth at Ddibenion Cyffredinol (General Purposes Transport)
MC	Croes Filwrol (Military Cross)
RAF	Yr Awyrlu Brenhinol



Y Gefnen sy'n dangos y prif dirnodau a lleoliad y prif gatrodau.

Cydnabyddiaethau

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gyda chymorth:
Comisiwn Beddrodau Rhyfel y Gymanwlad
Cydffederasiwn Sefydliadau Milwyr a Chyn-filwyr Prydain (COBSEO)
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Imperial War Museum
Uwchgapten G Graham MC a'r Bar
Cronfa Cyfleoedd Newydd
Academi Filwrol Frenhinol Sandhurst
Cymdeithas y Burma Star
Teithiau Coffa'r Lleng Frenhinol Brydeinig
The Victoria Cross and George Cross Association
Asiantaeth Cyn-filwyr

Ffotograffiaeth

Atgynhyrchir pob ffotograff gyda chaniatâd yr Imperial War Museum, Comisiwn Beddrodau Rhyfel y Gymanwlad a HMSO.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004. Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan COI Communications, Ebrill 2004, 261670

‘Nid oes dyfodol i genedl sy’n anghofio ei gorffennol’.
Ni allai dim fod yn fwy addas i ddisgrifio pwrpas y gyfres hon o lyfrynnau na’r geiriau hyn gan Winston Churchill. Hwn yw’r llyfryn cyntaf yn y gyfres.

Mae’r llyfrynnau hyn yn coffáu amrywiol frwydrau’r Ail Ryfel Byd, a’u nod yw atgoffa cenedlaethau’r dyfodol o’u dyled i’w cyndadau, a’r ysbrydoliaeth sy’n deillio o’u hanesion, yn ogystal â chofio a choffáu y rhai a frwydrodd ac a fu farw.

Byddant yn helpu pobl ifanc heddiw i fod yn ymwybodol o aberth y cyn-filwyr, a’u cyfraniad i’n diogelwch a’n ffordd o fyw heddiw.

MINISTRY OF DEFENCE

New Opportunities Fund
YOUR LOTTERY • YOUR COMMUNITY